Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

GBV 22
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) Cyfnod 1
Ymateb gan: Comisiynydd Heddlu A Throseddu Dyfed - Powys

**Christine Chapman**
Cadeirydd Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
CELG.committee@wales.gov.uk

04 Medi 2014

Annwyl Christine Chapman AC,

Ysgrifennaf mewn perthynas â'ch ymgynghoriad ar y Mesur Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).

Ar y cyfan, croesewir y dyletswyddau y mae'r Mesur yn cynnig ar gyfer awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol. Fodd bynnag, bydd yr allwedd ar gyfer llwyddiant parhaus mewn sicrhau fod y gwaith yn gysylltiedig â blaenoriaethau plismona ac adnoddau'r heddlu. Efallai y bydd hi'n bosibl sicrhau cysylltiadau o'r fath drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o ystyried y byddant yn cynnwys cynrychiolaeth gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid. Byddai'n effeithiol pe bai gan feysydd datganoledig megis tai, addysg ac iechyd ffocws cryf ar Gam-drin Domestig fel sydd eisoes yn bodoli mewn plismona, ond mae angen iddo gael ei wneud mewn partneriaeth, gyda mecanweithiau cyfeirio a llwybrau gofal wedi'u halinio rhwng pob asiantaeth. Mae gennyf bryderon sylweddol y bydd trefniadau newydd yn cael eu sefydlu er mwyn ticio'r blwch deddfwriaethol yn unig pan allai trefniadau anffurfiol presennol fod yn gweithio'n dda mewn ardaloedd lleol eisoes, a bod capasiti i'w cryfhau a'u gwella ymhellach.

Byddai Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn ddefnyddiol o ran darparu ymagwedd gyson ymysg gweithwyr proffesiynol rheng flaen - mae angen hyfforddi staff Iechyd yn arbennig er mwyn caniatáu ymgorffori'r ymagwedd 'Gofyn a Gweithredu'. Fodd bynnag, mae angen i'r hyfforddiant fod yn ystyrlon ar lefel leol a sicrhau fod y llwybrau a'r gwasanaethau cymorth angenrheidiol ar waith fel bod dioddefwyr yn gallu cael eu cynorthwyo a'u cyfeirio'n syth at y gwasanaethau cywir unwaith y nodir materion. Dyma ble y daw rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) yn ganolog. O ystyried ein cyfrifoldeb statudol ar gyfer dioddefwyr trosedd - ac mae cam-drin ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol i gyd yn droseddau - dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu fod wrth galon penderfyniadau comisiynu strategol a lleol. Rydyn ni'n medru alinio capasiti i angen a gweithredu'n gyflym a phendant o ran newid blaenoriaethau plismona lle bo angen ac o ran comisiynu gwasanaethau cymorth. Arddengys y gallu hwn gan ddwy enghraifft ddiweddar mewn perthynas â dioddefwyr Cam-drin Domestig. Yn hanesyddol yn Nyfed-Powys, ariannwyd yr ymateb i ddioddefwyr cam-drin domestig (Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig) gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru. Roedd ariannu'n dameidiog ac ar sail flynyddol. Arweiniodd hyn at 3.5 Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig cyfwerth ag amser llawn ar gyfer Dyfed-Powys gyfan (sy'n cwmpasu 52% o dirwedd Cymru). Roedd cyngor arbenigol cyson yn argymell

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

10 Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig cyfwerth ag amser llawn, ond eto, anwybyddwyd y cyngor hwn. Fel CHTh, roeddwn i'n medru asesu'r angen a chomisiynu cymorth Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig priodol i'r lefel a argymhellwyd, gan ddarparu cymorth a chyngor uniongyrchol i ddioddefwyr cam-drin ar sail rhyw a cham-drin domestig. Hefyd, roeddwn i'n medru sicrhau cyllid ar gyfer darparu dwy Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ychwanegol ar draws Dyfed-Powys, gan ddarparu cymorth arbenigol i ddioddefwyr trais rhywiol. Nid yw'n glir yn y Mesur arfaethedig pa un ai a fydd cyllid ar gael i Awdurdodau Lleol/Byrddau Iechyd ar gyfer darpariaeth arbenigol o'r fath. Mae'n hollbwysig fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n ymgynghori'n effeithiol â'i CHTh er mwyn sicrhau nad oes dyblygu o ran ariannu, a bod adnoddau'n cael eu halinio er mwyn cyflwyno cymorth lleol a thargedig a'r gwerth gorau am arian.

Mae gen i amheuon mewn perthynas â'r swydd Ymgynghorydd Gweinidogol. Nid yw'n eglur i mi ba werth fyddai'r rôl wir yn ychwanegu. Mae'r gost ddangosol o £600,000 y flwyddyn yn ymddangos yn anghymesur. Byddai'n well o lawer rhoi'r arian tuag at ddarpariaeth gwasanaethau lleol er mwyn sicrhau mynediad rheng flaen ar gyfer cymaint o ddioddefwyr â phosibl. Mae yna gyfle ar gyfer pob ffrwd ariannu mewn perthynas â cham-drin domestig a thrais rhywiol, rhai datganoledig a rhai sydd heb eu datganoli, i fod wedi'u halinio er mwyn cyflawni gwell canlyniadau ar gyfer dioddefwyr. Mae yna gyfle i alinio strategaethau ac adnoddau, rhai datganoledig a rhai sydd heb eu datganoli, er mwyn cyflwyno mecanweithiau cymorth lleol mewn perthynas â thrais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n gynaliadwy, yn hygyrch ac yn effeithiol. Mae'r Mesur arfaethedig yn canolbwyntio gormod ar strwythurau ac nid yw'n bachu ar y cyfleoedd hynny.

Yr eiddoch yn gywir

Christopher Salmon

**Christopher Salmon**
**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**